Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Independent Review of Support for Publishing and Literature in Wales
Ymateb gan Gwion Hallam, Bardd a Chynhyrchydd / Evidence from Gwion Hallam, Poet and Producer

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd eich swydd fel cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant a hynny'n benodol cyn y drafodaeth sydd ar fîn digwydd ar ddyfodol Llenyddiaeth Cymru. Deallaf fod y pwyllgor am gyfarfod i ystyried yr adroddiad diweddar ac i bwyso a mesur yr hyn sydd am ddigwydd nesaf. Mae'n gyfnod tyngedfennol felly i lenyddiaeth yng Nghymru - nid yn unig i'r beirdd a'r sgwennwyr ag ati sydd wedi eu cynnal gan nawdd a chefnogaeth Llenyddiaeth Cymru, ond y miloedd o bobl sydd wedi elwa'n sylweddol o brosiectau a gwaith y sefydliad.

Fel bardd yr ydw i wedi ymwneud yn bennaf gyda Llenyddiaeth Cymru, a hynny'n ddiweddar wrth weithio gyda rhai sy'n byw hefo dementia. Cefais y fraint - a'r gefnogaeth ariannol - o weithio mewn dau gartref gofal dros y ddwy flynedd a fu. Cartref Plas Pengwaith yn Llanberis a chartref dementia arbenigol Bryn Seiont Newydd yng Nghaernarfon. Roedd nôd a bwriad y prosiect yn glir iawn, sef cydweithio hefo oedolion sy'n byw hefo dementia a'u helpu neu eu harwain i greu barddoniaeth. Dyma'r gwaith mwyaf heriol ond boddhaol i mi ei wneud erioed dwi'n meddwl. Fe wnes ymweld ag amrediad eang o oedolion dros gyfnod gweddol hir - gan dreulio amser gydag uniolion yn gwrando a thrafod a sgwennu. Yn sgil y ddau gyfnod fe grëwyd cerddi niferus, gan lawer ohonynt. Roedd y rhain yn gerddi personol a phwerus iawn ac yn dangos bod gan y trigolion y gallu i fod yn greadigol ac yn gynhyrchiol o hyd er y dementia a'i sgil effeithiau.

Mae'n gyfnod heriol o ran yr economi a dyfodol ein gwlad, wrth gwrs ei bod hi. Mae arian yn brin yn barod heb sôn am yr ansicrwydd ar y gorwel wrth i lywodraeth doriaidd ddi-glem a diegwyddor anghofio am Gymru a'i phobl. Ond nid yw anghenion pobl yn newid. Fe fydd cleifion dementia - boed yn gymraeg neu'n saesneg eu hiaith - dal i fod angen prosiectau chwyldroadol fel hyn. Mae mwy o mwy o bobl yn mynd i fod yn byw gyda dementia. Mwy o arian sydd ei angen ac nid llai.

Ga i ofyn yn garedig i chi ystyried prosiectau tebyg wrth drafod dyfodol Llenyddiaeth Cymru. Oni bai am Lenyddiaeth Cymru ni fyddai'r cleifion dementia yma wedi sgwennu eu cerddi. Fyddwn i, a beirdd a sgwennwyr eraill, heb allu treulio'r holl ddiwrnodau y gwnaethom yn gwrando a thrafod a gweithio gyda'r bobl arbennig yma. Diolch yn fawr am ddarllen hwn ac ystyried gwaith unigryw a phwyisg Llenyddiaeth Cymru,